

2019/20

# Adroddiad Effaith

Rhoi'r grym i bobl godi eu llais ac atal troseddu.

Hollol ddienw. Bob tro.

CrimeStoppers.

Speak up. Stay safe.



2019/20

# Adroddiad Effaith


| | |
|---|---|
| 3 | Croeso gan ein Cadeirydd |
| 4 | Croeso gan ein Prif Swyddog Gweithredol |
| 5 | Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd |
| 6-7 | Cyflawni ein strategaeth |
| 8-11 | Astudiaethau achos ynghylch bod yn ddienws |
| 12-15 | Astudiaethau achos ynghylch ymgysylltu |
| 16-19 | Astudiaethau achos addysg |
| 20 | Astudiaethau achos ynghylch dirnadaeth |
| 21 | Ein gwasanaethau |
| 22-25 | Arolwg Stopwyr 2019 |
| 26-27 | Datblygu'r Busnes |
| 28-29 | Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol |
| 30-31 | Nawr yw'r amser i'r elusen godi ei llais |
| 32 | Uchafbwyntiau ariannol |
| 33 | Datganiad yr archwilydd |
| 34-35 | Diolch |



Elusen Gofrestredig
Rhif 1108687 (Lloegr) Rhif SC037960 (Yr Alban)
Rhif Cwmni 05382856

# Croeso gan ein Cadeirydd



> Mae'r wybodaeth y mae Crimestoppers yn ei chael mor hanfodol heddiw ag yr oedd pan sefydlais yr elusen hon dros 32 o flynyddoedd yn ôl.

**Arglwydd Ashcroft KCMG PC**
Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Crimestoppers

**Croeso i'n Hadroddiad Effaith 2019-2020. Mawr obeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am waith arloesol ein helusen wrth gynorthwyo gweithgarwch gorfodi'r gyfraith ar draws y DU, gan helpu cymunedau i godi eu llais mewn ffordd ddienw ac i gadw'n ddiogel.**

Wrth i ni fwrw golwg yn ôl ar ein cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf, rhaid i ni gydnabod bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi mewn cyfnod o ansicrwydd mawr o ganlyniad i bandemig Coronafeirws. Mae'n bleser gennyf ddweud bod ein helusen yn parhau i weithio wrth gydymffurfio â chanllawiau llym y llywodraeth, a bod staff gwych ein Canolfan Gyswllt yn parhau i gyflawni eu swyddogaeth, gan gynnig gwasanaeth cwbl allweddol i'r cyhoedd. Rydym yn cyflawni rôl allweddol wrth helpu'r rhai mwyaf agored i niwed.

Rydym yn bodoli oherwydd bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn methu neu'n gwrthod siarad gyda'r awdurdodau. Fodd bynnag, gyda Crimestoppers, rydym yn cynnig gobaith. Mae'n statws elusennol yn parhau i fod yn elfen hanfodol gan ei fod yn cynnig hyder y mae gwir angen amdano ar bobl sydd mewn cyfyng-gyngor, i ymddiried yn ein gwasanaeth unigryw. Mae ofni dial yn rhwystr mawr, law yn llaw â rhesymau diwylliannol greddfol. Mae cadw'n dawel yn cael effaith niweidiol, gan ganiatáu i fwy o droseddwyr ffynnu, a chan beri niwed a difrod sylweddol i gymdeithas.

Mae'r wybodaeth y bydd Crimestoppers yn ei chael mor hanfodol heddiw ag yr oedd pan sefydlais yr elusen hon dros 32 o flynyddoedd yn ôl. Mae'n cynorthwyo ymchwiliadau'r heddlu, mae'n dod o hyd i droseddwyr sydd wedi dianc ac mae'n helpu teuluoedd y maent yn ceisio cyfiawnder.

Mae'n ymdrech gan dîm cyfan: o staff a gwirfoddolwyr, ynghyd â'n partneriaid, gan gynnwys yr heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a busnesau. Ond yn y pen draw, ein buddiolwyr ni sydd wrth wraidd popeth a wnawn. Mae miloedd ohonynt yn cysylltu â ni bob dydd, gan wneud dewis cadarnhaol i wneud y peth iawn, yn yr amgylchiadau anoddaf yn aml – diolchwn iddynt am eu dewrder a'u hagwedd gymwynasgar.

Gwerthfawrogaf eich bod wedi neilltuo'r amser i ddeall mwy am ein gwaith. Diolch i Crimestoppers, mae gan bobl ffordd o helpu i gadw eu cymuned a'u teulu yn ddiogel, nid yn unig mewn ffordd gyfrinachol, ond hefyd, mewn ffordd hollol ddienw.

**Arglwydd Ashcroft KCMG PC,**
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Ymddiriedolaeth Crimestoppers

# Croeso gan ein Prif Swyddog Gweithredol



Mae nifer y cysylltiadau gan y cyhoedd wedi cyrraedd ymhell dros hanner miliwn erbyn hyn, ac anfonom dros 172,000 o adroddiadau at yr heddlu – cynnydd o 5%.

**Mark Hallas OBE**
Prif Swyddog Gweithredol
Crimestoppers

**Ni allaf gychwyn y cyflwyniad hwn heb sôn am y Coronafeirws; yr her y bu'n rhaid i ni ei hwynebu a sut y gwnaethom hynny. Yn bwysicaf oll, cadwyd ein Canolfan Gyswllt ar agor 24/7 trwy gydol yr argyfwng. Ni leihaom ein gwasanaeth unwaith, ac roedd hyn o ganlyniad i ymrwymiad anhygoel ein Swyddogion Ateb Galwadau. Roedd hyn yn sicrhau y bu modd i ni helpu ein buddiolwyr trwy'r cyfnod anodd hwn.**

Mae gweddill y tîm wedi tynnu eu pwysau hefyd: mae Rheolwyr Rhanbarthol, Cyfathrebu, Ieuenctid a Chyllid, Datblygu Busnes ac Adnoddau Dynol wedi gwneud argraff trwy ddod ynghyd i chwilio am ffyrdd o gynorthwyo'r rhai y mae ein hangen arnynt, wrth weithio gartref.

Nid yw'r perfformiad wedi dioddef. Yn wir, rydym wedi cael blwyddyn well nag erioed o'r blaen. Mae nifer y cysylltiadau gan y cyhoedd wedi cyrraedd ymhell dros hanner miliwn bellach, ac anfonom dros 172,000 o adroddiadau at yr heddlu – cynnydd o 5%. Nid yw ansawdd y wybodaeth wedi gwaethygu ychwaith; rydym wedi cael llwyddiannau nodedig lle y mae'n gwybodaeth ni wedi arwain at ddatrys llofruddiaethau, dal treiswyr, amharu ar weithgarwch gangiau troseddol cyfundrefnol difrifol a diogelu'r rhai sydd yn yr angen mwyaf.

Eleni, ein ffocws fu sicrhau bod ein gweithgareddau yn canolbwyntio ar gymunedau lleol yn arbennig. Caiff ein hymgyrchoedd ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau eu hysgogi o'r gwaelod i fyny lawn gymaint ag y cânt o'r brig i lawr. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cynnal dilysrwydd yn lleol. Mae'r gwaith gwych a gyflawnir gan ein gwirfoddolwyr ar hyd a lled y wlad yn allweddol er mwyn cyflawni hyn. Maent yn adnabod eu hardaloedd ac yn sicrhau, gyda'n Rheolwyr Rhanbarthol, bod ein negeseuon yn berthnasol ac yn addas.

Rydym yn cydweithio'n agosach ac mewn ffordd fwy effeithiol gyda'n partneriaid nag erioed o'r blaen. Rydym yn chwilio am ffyrdd o ddarganfod achos cyffredin dros ddiogelu'r cyhoedd – gan weithio gyda'r heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Swyddfa Gartref, llywodraethau datganoledig, cynghorau, elusennau eraill, ymddiriedolaethau, a busnesau, y maent oll yn rhannu ein gwerthoedd.

Rydym wedi darparu yn wyneb adfyd, gan wneud gwahaniaeth go iawn i gymunedau. Rydym yn ymboeni'n angerddol am ein holl fuddiolwyr. Rydym yn dymuno sicrhau eu bod yn gallu cael cyfiawnder. Dyna pam ein bod yn mynd yr ail filltir i ddarparu gwasanaeth adrodd dienw o safon byd, y mae pobl yn ymddiried ynddo, er mwyn diogelu'r rhai agored i niwed a chadw pobl yn ddiogel.

**Mark Hallas OBE,**
Prif Weithredwr, Crimestoppers



# Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

## Helpu pawb i deimlo'n ddiogel rhag troseddu...

Rydym yn elusen annibynnol sy'n rhoi'r grym i bobl godi eu llais ac atal troseddu mewn ffordd hollol ddienw. Pwy bynnag ydych chi, ble bynnag yr ydych yn byw, o gymunedau i gwmnïau. Dros y ffôn ac ar-lein, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn.

Rydym yn rhannu cyngor hefyd ynghylch sut i ddiogelu'r bobl a'r cymunedau yr ydych yn ymboeni amdanynt rhag troseddu, fel y gall pawb deimlo'n ddiogel.

Bob dydd rydym yn byw ein gwerthoedd. Dyma rai enghreifftiau o sut:

## Rydym yn ymboeni

Credwn bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw. Gall troseddu beri cryn ofn, felly rydym yn cynnig gobaith. Mae'n partneriaethau gyda gwasanaethau ac elusennau, megis Childline a Chymorth i Ddioddefwyr, yn golygu y gallwn drosglwyddo'r sawl sy'n ffonio er mwyn iddynt gael unrhyw help ychwanegol y mae ei angen arnynt.

## Rydym yn gynhwysol

Nid ydym yn barnu pobl. Rydym yma i bawb y mae ein hangen arnynt. Gallwn newid cymunedau er gwell trwy gydweithio. Mae'n gwirfoddolwyr yn cynrychioli eu hardal leol ac yn gweithio gyda'u holl gymunedau gwahanol i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn adrodd am droseddu mewn ffordd ddienw.

## Rydym yn benderfynol

Rydym yn ymrwymo ein holl ymdrechion i sicrhau newid cadarnhaol. Rydym yn credu yn ein gallu i gyflawni. Pan ddaeth y pandemig, cadwom ein gwasanaethau ar agor 24/7. Bu'r staff yn gweithio oriau ychwanegol, gan ddangos hyblygrwydd anhygoel i ymdopi â'r cynnydd yn y galw, wrth i ffynonellau eraill gwybodaeth gymunedol ddiflannu.

## Gellir ymddiried ynom

Rydym yn elusen ddibynadwy, gonest ac annibynnol. Rydym yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol ac nid ydym fyth yn datgelu manylion unrhyw un sy'n cysylltu â ni. Mae'n haddewid y gellir ymddiried ynddo yn ymestyn y tu hwnt i'r cyhoedd a'r heddlu i'r byd masnachol. Rydym yn bartner y mae ystod eang o gwmnïau a chyrff cyhoeddus sy'n dymuno diogelu eu staff a'u cymunedau lleol rhag troseddu, yn ymddiried ynddo.

# Cyflawni ein strategaeth



Wrth i ni esblygu o un cynllun strategol i'r un nesaf, mae'n amlwg mai'r uchelgais a bennom yn 2015 oedd yr un gywir i'w dilyn. Bydd partneriaid yn ystyried ein gwasanaeth sy'n gwarantu cadw manylion pobl yn ddienw, fel canolfan ragoriaeth yn gyson, ac rydym yn ddiolchgar am eu cymorth yn ein datblygiad parhaus.

Rydym yn cynnal ffocws cyson ar gymunedau y maent ein hangen fwyaf, ac rydym yn parhau i ddysgu mwy am ein buddiolwyr fel y gallwn eu cynorthwyo'n well. Caiff ein gwaith marchnata, ein cyfathrebu a'n prosiectau eu targedu mewn ffordd glir, ac mae hyn yn ein helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth mewn ffordd ddienw. Byddwn yn rhannu gwybodaeth o ansawdd ynghylch atal troseddu gan ein partneriaid yn gyson, fel y gall pobl ddiogelu eu hunain a'u teuluoedd. Rydym yn defnyddio data a dirnadaeth yn gynyddol er mwyn cyfrannu at ein gwaith, a gwaith ein partneriaid, mewn diwylliant sy'n awyddus i ddysgu a gwella. Mireiniwyd ein strategaeth ymhellach ar gyfer y cyfnod o 2020 ymlaen.

| Cynnydd hyd yn hyn 2019/20 | Ein camau nesaf |
|---|---|
| **Bod yn ddienw** | |
| Mae datblygiad parhaus ein staff a'n gwasanaethau yn ein Canolfan Gyswllt yn helpu i'n cadw yn berthnasol ac yn broffesiynol. | Bydd symud tîm ein Canolfan Gyswllt i'r un safle â'n Prif Swyddfa yn helpu'r elusen gyfan i gydweithio'n well. |
| Mae'n hymchwil wedi dangos y byddai ein defnyddwyr a'r heddlu yn croesawu gweithgarwch prosesu delweddau digidol yn ddienw. Rydym wedi cychwyn ar brosiect gyda chymorth pro-bono i fodelu'r galw er mwyn helpu gyda lefelau staffio. | Byddwn yn gweithredu argymhellion o'r adolygiad o lefelau staffio. |
| Rydym yn gwybod bod nifer o bobl a ddaeth atom wedi ceisio cael help gan yr heddlu yn y lle cyntaf. Rydym yn gwella dealltwriaeth heddweision o'n gwasanaeth trwy gyfrwng hyfforddiant a chyfathrebu. | Caiff cyfathrebu gyda rhanddeiliaid allweddol megis yr heddlu ei wella. Caiff offerynnau er mwyn esbonio bod yn ddienw mewn ffordd syml eu creu a'u rhannu. |
| **Dadansoddi** | |
| Cwblhaom y cynllun strategol trwy gael rhagor o drafodaeth gyda staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid ynghylch sut i gyflawni ein gweledigaeth. Rydym wedi arolygu ein Stopwyr, gan adolygu gweithrediad y brand. | Gyda'n strategaeth newydd yn ei lle, byddwn yn datblygu fframwaith perfformiad newydd er mwyn ein helpu i asesu, prosesu a hysbysu ymdrechion yn y dyfodol. |
| Bellach, caiff adroddiadau thematig am y wybodaeth yr ydym wedi'i chael eu paratoi yn gyson. | Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gweithgarwch dadansoddi ac adrodd am yr effaith, er mwyn helpu i gyfrannu at ein gwaith ni a gwaith ein partneriaid. |

## Ymgysylltu

| | |
|---|---|
| Rydym wedi parhau i flaenoriaethu'r troseddau sy'n achosi'r niwed mwyaf, a throseddau treisgar yn arbennig, ac rydym wedi gweld twf sylweddol yn nifer yr adroddiadau am y materion hyn. | Byddwn yn cynnal rhagor o brosiectau sy'n dwyn ein cymunedau ynghyd, dan un thema ar y tro, i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Bydd hyn yn rhoi offerynnau o ansawdd i'n timau er mwyn iddynt allu cyfathrebu. |
| Mae'n tîm rhanbarthol, gan gynnwys gwirfoddolwyr a gweithwyr ieuenctid, wedi gweithio gyda nifer o gymunedau sy'n gweld niferoedd uchel o droseddau a throseddau niweidiol, er mwyn meithrin ymddiriedaeth yn ein gwasanaethau. Roedd ein cyfres gyntaf o bodlediadau wedi dwyn lleisiau amrywiol i'n gweithgarwch cyfathrebu. | Wrth i droseddau niferus ddod yn flaenoriaeth gynyddol gyda phartneriaid, byddwn yn ystyried sut i roi sylw i hyn gyda'n cymunedau. |
| Rydym wedi adolygu ein rhaglen ieuenctid Fearless er mwyn dysgu gan brofiadau ein tîm cyfan a gwella. | Gan ddefnyddio offerynnau cyfathrebu newydd, bydd ein gwirfoddolwyr a'n tîm rhanbarthol yn ceisio gwella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ein gwasanaeth. |


## Addysg

| | |
|---|---|
| Bu ein Hapêl ar BBC Radio 4 yn llwyddiant mawr i ni. Rydym wedi dod yn fwy hyderus wrth hyrwyddo ein statws elusennol o ganlyniad, ac rydym wedi sicrhau mwy o gyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau. | Byddwn yn datblygu cynnwys er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall sut mae troseddau yn edrych, felly bydd yr 'arwyddion hyn i gadw golwg amdanynt' yn eu helpu i gadw'n ddiogel a gwella ansawdd gwybodaeth ddienw y byddwn yn ei chael. |
| Mae gennym gytundeb partneriaeth gyda Gwarchod Cymdogaeth a Chymorth i Ddioddefwyr. Rydym yn parhau i rannu cyngor partneriaid ynghylch atal troseddau trwy ein rhwydweithiau. | Defnyddir arbenigedd partneriaid mewn ffordd well er mwyn cyfrannu at ein gwaith a chynorthwyo ein prosiectau. |



**Cyn Gomisiynydd Dioddefwyr, Barwnes Newlove – Apêl BBC Radio 4**

# Astudiaethau achos ynghylch bod yn ddienw



Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnig bron i 50 o wobrau uwch, y maent wedi arwain at gliwiau hanfodol i Swyddogion Ymchwilio Uwch.  Yn anffodus, ni allwn ddathlu ein llwyddiannau oherwydd ein haddewid i gadw pobl yn ddienw.

## Ymgyrch Most Wanted yn dal y rhai a oedd yn ceisio dianc

Mae'n hymgyrch genedlaethol barhaus, Most Wanted – sy'n manteisio ar y platfform unigryw a phoblogaidd ar ein gwefan – yn nodi unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau yn y DU.  Efallai eu bod yn ceisio osgoi cael eu harestio neu efallai eu bod wedi dianc i wlad dramor.  Gall y cyhoedd droi at dros 200 o apeliadau byw sy'n manteisio ar wybodaeth gan heddluoedd er mwyn sicrhau cywirdeb mewn maes sy'n newid yn gyflym.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, arestiwyd dros 150 o bobl yn genedlaethol, gan gynnwys 27 am fyrgleriaeth a 32 am droseddau treisgar.

Arestiwyd dau darged pellach fel rhan o 'Ymgyrch Captura' hefyd, gan gynnwys Christopher Guest More, sy'n aros am ei achos llys nawr am lofruddiaeth, a Dominic McInally, a gyhuddwyd o fasnachu cyffuriau.  Arweinir Ymgyrch Captura ar y cyd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a Crimestoppers, ac mae wedi llwyddo i sicrhau bod 85 o unigolion yr oedd yr heddlu yn chwilio amdanynt yn cael eu harestio a'u dychwelyd i'r DU i'w herlyn.

## Gwobrau gwell, gwella ymchwiliadau


Mae Crimestoppers yma i bobl sydd â gwybodaeth am unrhyw drosedd.

Fodd bynnag, mae'n gwerth i faes gorfodi'r gyfraith yn arbennig o bwysig mewn perthynas â throseddau difrifol a niweidiol megis llofruddiaeth, trais, ymosodiadau treisgar, cam-drin plant a throseddau cyfundrefnol difrifol.

Rydym yn cynnig gwobrau uwch, hyd at £10,000 yn gyffredinol, ar gyfer achosion difrifol penodol, yn aml pan fydd ymchwilwyr yn ei chael hi'n anodd gan eu bod yn wynebu wal o dawelwch neu pan fydd darn o dystiolaeth hanfodol ar goll o hyd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnig bron i 50 o wobrau uwch, y maent wedi arwain at gliwiau hanfodol i Swyddogion Ymchwilio Uwch.  Yn anffodus, ni allwn ddathlu ein llwyddiannau oherwydd ein haddewid i gadw pobl yn ddienw.

Mae gwobrau sy'n gysylltiedig ag apêl yn helpu i sicrhau cyhoeddusrwydd y mae cryn angen amdano.  Maent yn rhoi hwb i'r sylw a geir yn y cyfryngau, ar draws gwasanaethau teledu, radio, ar-lein ac mewn print, gan helpu i gynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu ar draws cyfryngau cymdeithasol.  Mae manteisio i'r eithaf ar y sylw hwn yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y bobl gywir, gan apelio i'w cydwybod neu atgoffa rhywun o rywbeth gobeithio, gan eu cymell i gyfleu eu gwybodaeth mewn ffordd ddienw pan na fyddant wedi gwneud hynny yn barod trwy ei rhoi i'r heddlu yn uniongyrchol.




# Straeon stopwyr

## Gwobr uwch

Cyhoeddodd Crimestoppers bod gwobr o £5,000 ar gael ar ôl i aelod o staff mewn siop gemwaith gael eu hanafu yn ystod lladrad. Roedd gwybodaeth a roddwyd i Crimestoppers wedi enwi un o'r lladron a gyflawnodd y drosedd hon. O'r wybodaeth hon, bu modd i'r heddlu ddarganfod lleidr cyson, a arestiwyd. Oherwydd cyfanswm y dystiolaeth, plediodd yr unigolyn yn euog i'r lladrad, gan ymddangos yn Llys y Goron, lle y penderfynodd y barnwr roi dedfryd o saith mlynedd o garchar iddo, yn ogystal â thair blynedd ar drwydded estynedig.

Yn y pen draw, nid yr arian sy'n bwysig, gan mai lleiafrif bach o bobl sy'n cysylltu â ni sy'n ystyried hwn fel cymhelliad. Caiff mwyafrif helaeth ein buddiolwyr eu cymell gan yr awydd i wneud y peth iawn.

## Sicrhau llwyddiant yng Ngogledd Iwerddon

Mae Crimestoppers Gogledd Iwerddon wedi cael effaith sylweddol dros y flwyddyn diwethaf, gan sicrhau bod nifer uwch o adroddiadau nag erioed o'r blaen – dros 3,500 – wedi cael eu trosglwyddo i'r heddlu. Cynorthwyom nifer o ymchwiliadau amlwg iawn yng Ngogledd Iwerddon hefyd, trwy gynnig gwobrau uwch – nifer uchaf yr apeliadau yr ydym erioed wedi'u lansio ar gyfer y rhanbarth.

Roedd y gwobrau yn cynnwys yr un er mwyn helpu i ddatrys llofruddiaeth Lyra McKee, newyddiadurwraig 29 oed, yr oedd ei hachos wedi cael sylw rhyngwladol a beirniadaeth eang.

# Astudiaethau achos ynghylch bod yn ddienw

Roedd gwaith ychwanegol yn cynnwys yr ymchwiliad parhaus i achos 'Y Diflanedig' hefyd – y dynion a herwgipiwyd, a lofruddiwyd ac a gladdwyd yn y dirgel yn ystod yr Helyntion yng Ngogledd Iwerddon. Gweithiom gyda'r Comisiwn Annibynnol er mwyn Lleoli Olion Dioddefwyr ar yr apêl hwn, oherwydd er gwaethaf y ffaith bod nifer fawr o flynyddoedd wedi mynd heibio, ni ddaethpwyd o hyd i gyrff tri o'r un ar bymtheg o ddioddefwyr.

## Profiad o ansawdd yn ein Canolfan Gyswllt

Cynhaliodd ein Canolfan Gyswllt nifer o ymweliadau gan fusnesau a sefydliadau eraill o gwmpas y DU. Maent wastad yn awyddus i weld yr hyn yr ydym yn ei wneud drostynt eu hunain, gan roi enwau i wynebau aelodau'r timau y maent yn cael cyswllt rheolaidd gyda nhw. Mae'r ymweliadau hyn yn gyfle i ni hysbysu rhanddeiliaid o'n haddewid i gadw unigolion yn ddienw. Rydym yn cael budd hefyd wrth i sefydliadau ddweud wrthym yr hyn sydd o ddiddordeb ym maes gorfodi'r gyfraith, fel bod staff y Ganolfan Gyswllt yn hyderus wrth ofyn y cwestiynau cywir i'n Stopwyr.

Rydym yn hynod ddiolchgar am yr ymweliadau hyn gan eu bod o fudd i ni gyd. Maent yn helpu i feithrin perthnasoedd gwaith cadarn a gwella ein gwasanaeth trwy gyfrwng dysgu a rhannu.

## Heddluoedd

Rydym yn aml yn manteisio ar yr ymweliadau hyn fel cyfle i'r heddlu roi cyflwyniad hyfforddiant byr i staff ein Canolfan Gyswllt. Mae'r pynciau y rhoddir sylw iddynt yn cynnwys:

- casglu gwybodaeth
- tueddiadau newydd o ran troseddu
- blaenoriaethau'r heddlu
- dangos yr hyn sy'n digwydd i adroddiadau Crimestoppers ar ôl i'r heddlu eu cael, sy'n ffefryn arbennig.

Mae'r heddluoedd a ymwelodd eleni yn cynnwys Avon a Gwlad yr Haf, Essex, Hampshire, Caint, y Gwasanaeth Heddlu Metropolitanaidd, Swydd Northampton, De Swydd Efrog, Sussex, a Gorllewin Swydd Efrog.

## Uchel Siryfion

Eleni, buom yn ddigon ffodus i groesawu Uchel Siryfion a'u cymdeithion o dair sir: Sussex, Caint a Dinas Llundain. Y swydd hon yw'r swydd seciwlar hynaf ar ôl y Goron ac mae wedi cynnal y ddyletswydd o wobrwyo aelodau'r cyhoedd am gyflawni gweithredoedd o ddewrder rhyfeddol wrth helpu i stopio troseddau y maent wedi bod yn dyst iddynt. Clywodd yr Uchel Siryfion am nodau strategol Crimestoppers a gweld sut y mae pobl yn manteisio ar y cyfle i godi eu llais ac i aros yn ddiogel mewn ffordd ddienw.

## Partneriaid busnes a phartneriaid statudol eraill

Mae'r tîm Datblygu Busnes wedi cynnig amrywiaeth anhygoel i ni gyda'u hymwelwyr eleni. Rydym wedi mwynhau croesawu cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol ymhlith rhai eraill, ac rydym wedi cael budd o ddysgu am eu sialensiau nhw mewn perthynas â throseddu:

- Cyngor Dinas Brighton a Hove
- Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain
- Uned Rheolydd Gwyddor Fforensig
- VSG-Mitie
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- Yr Asiantaeth Brofi Ryngwladol
- Gwasanaeth Gwybodaeth Troseddau Cerbydau Cenedlaethol
- Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd
- Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch
- Y Post Brenhinol
- Achub y Plant
- Thames Water



# Straeon stopwyr

## Caethwasiaeth fodern

Arweiniodd gwybodaeth a gafodd Crimestoppers at gychwyn ymchwiliad yr heddlu a nododd ferched dan oed a oedd yn destun camfanteisio mewn puteindy.  Arestiwyd dau unigolyn a'u cyhuddo o ymgais i dreisio, yn ogystal â chamfanteisio a masnachu pobl.

## Caethwasiaeth fodern:  Ymddwyn fel y cyflawnwyr er mwyn eu dal

Mae nifer y bobl sy'n destun camfanteisio, sy'n cael eu rhwydo a'u twyllo i fyd caethwasiaeth fodern yn y DU wedi bod yn codi dros y blynyddoedd diwethaf.  Ar lefel genedlaethol, cyfeiriwyd dros 10,000 o ddarpar ddioddefwyr am gymorth.

Cysylltodd GLAA (Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur) â ni gan eu bod yn dymuno cael cymorth wrth rybuddio pobl o Romania sy'n chwilio am waith bod nifer o hysbysebion recriwtio yn rhai twyllodrus.  Roedd y wybodaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod dynion ifanc o Romania yn cael eu recriwtio trwy gyfrwng hysbysebion ar Facebook, er mwyn eu denu i weithio i gyflogwyr diegwyddor neu gangiau troseddol, yn y sector adeiladu prysur yn Llundain yn benodol.

Trwy ddynwared y swyddogion recriwtio ffug, defnyddiom gyfres o hysbysebion yn arddull y rhai ffug ar draws Facebook, a oedd yn ceisio denu sylw darpar ddioddefwyr gyda phenawdau fel 'A ydych chi'n chwilio am waith?' neu 'A oes angen swydd arnoch chi?'.

Bu'r hysbysebion yn llwyddiannus, trwy dywys cynulleidfaoedd i wefan lle y cawsant eu rhybuddio am hysbysebion swydd ffug a'u hysbysu o'r hyn i gadw golwg amdano.  Llwyddodd ein hysbyseb a dargedwyd i gyrraedd bron i filiwn o bobl, fe'i gwelwyd dros 3 miliwn gwaith, ac arweiniodd at gynnydd o 13% yn nifer yr adroddiadau am gaethwasiaeth fodern yn ystod y bythefnos pan gynhaliwyd yr ymgyrch.  Yn ogystal, llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau bron i hanner dwsin o adroddiadau penodol a oedd yn sôn am bobl o Romania a oedd yn ddioddefwyr.

Ariannwyd yr ymgyrch gan GLAA, a helpodd i addysgu'r gynulleidfa darged am arwyddion hysbysebion ffug er mwyn helpu i atal achosion caethwasiaeth fodern yn y dyfodol.  Bydd y wybodaeth a gawsom yn helpu i ddiogelu dioddefwyr, gan darfu ar waith y gangiau troseddol sy'n gyfrifol am y camfanteisio ofnadwy hwn.

# Astudiaethau achos ynghylch ymgysylltu



Mae Llinellau Sirol yn cyfeirio at gludo cyffuriau anghyfreithlon rhwng ardaloedd, ar draws ffiniau sirol a heddluoedd fel arfer.  Bydd gangiau troseddol yn paratoi ac yn camfanteisio ar oedolion a phlant agored i niwed, a byddant yn dod yn 'rhedwyr'.



## Gwirfoddolwyr o Swydd Northampton yn gwneud gwaith ymgysylltu hanfodol mewn cymunedau difreintiedig

Mae Pwyllgor Gwirfoddolwyr Swydd Northampton wedi mynd o nerth i nerth dros y dair blynedd ddiwethaf. Mae aelodaeth y pwyllgor wedi tyfu ac mae eu hymroddiad wedi datblygu, wrth iddynt gynnig syniadau newydd a chreadigol er mwyn gweithio gyda phobl yn eu sir wledig lle y gwelir amrywiaeth ethnig. Law yn llaw â mentrau gyda phobl ifanc, mae'n gwirfoddolwyr wedi ymgyrchu ynghylch cam-drin domestig, byrgleriaeth a Llinellau Sirol.

Gan fwrw golwg fanylach ar eu sir, nodwyd bod lefel y troseddau cyffuriau, trais, arfau, troseddau gangiau a phroblemau eraill yn uchel mewn nifer o gymunedau. Cadarnhaodd yr heddlu ddiffyg gwybodaeth o'r ardaloedd hyn. Roedd hi'n glir i'r pwyllgor lle y dylent ganolbwyntio eu hymdrechion, ac roeddent wedi llwyddo i godi arian i gynorthwyo eu gwaith.

Gan ddefnyddio negeseuon gan ein gwasanaeth ieuenctid, Fearless, a Crimestoppers, bu'r gwirfoddolwyr yn hwyluso digwyddiadau a diwrnodau ymgysylltu gyda phartneriaid. Buont yn gweithio mewn ysgolion a gyda grwpiau ieuenctid, gan gynnal ymgyrchoedd yn yr ardaloedd hyn. Roeddent wedi ceisio rhoi'r offerynnau i bobl ifanc droi eu cefn ar fywyd o droseddu, neu i gael gafael ar y wybodaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn eu helpu i wneud y penderfyniadau i adrodd gwybodaeth am droseddu, neu gerdded i ffwrdd.

Trwy wneud hynny, mae'r pwyllgor wedi:

- **Cyflwyno cynyrchiadau theatr i dros 1,500 o fyfyrwyr**
- **Helpu i ostwng nifer y tanau bwriadol 50%**
- **Hwyluso digwyddiadau cymunedol a fynychwyd gan dros 700 o bobl**
- **Cyfleu neges Fearless i dros 10,000 o fyfyrwyr**
- **Gweithio gyda rhaglen Kicks Uwch-Gynghrair Clwb Pêl-droed Tref Northampton er mwyn sicrhau bod Fearless yn rhan o'u gweithdai a gyflwynir**

## Nifer yr adroddiadau yn dyblu ar ôl cynnal ail ymgyrch Llinellau Sirol yn ardal Dyfed Powys

Mae Llinellau Sirol yn cyfeirio at gludo cyffuriau anghyfreithlon rhwng ardaloedd, ar draws ffiniau sirol a heddluoedd fel arfer. Bydd gangiau troseddol yn paratoi ac yn camfanteisio ar oedolion a phlant agored i niwed, a byddant yn dod yn 'rhedwyr'. Mae hyn yn eu galluogi i ehangu eu rhwydwaith trwy werthu mewn trefi a phentrefi sy'n bellach i ffwrdd.

Cynhaliodd Crimestoppers ymgyrch genedlaethol yn 2018 er mwyn eu helpu i ymateb i'r broblem gynyddol hefyd, a gyflwynwyd yn llwyddiannus yn ardal Dyfed Powys. Ym mis Gorffennaf a mis Awst 2019, cynhaliodd Crimestoppers Cymru ymgyrch ddilynol er mwyn helpu i roi hwb i ymwybyddiaeth pobl o'r peryglon ac er mwyn ceisio sicrhau mwy o wybodaeth i'r heddlu. Roedd yn ceisio ategu gweithgarwch 'Ymgyrch Gwarcheidwad' y llu.

Roedd dros 20,000 o bobl wedi gweld ein hysbysebion Facebook yn y sir ac roedd dros 4,000 wedi ymweld â thudalen ein hymgyrch. Law yn llaw â gweithgarwch ymgysylltu cadarn ar gyfryngau cymdeithasol, roedd yr ymgyrch wedi cynnal sylw yn y cyfryngau ar ffurf 46 o erthyglau at ei gilydd, gydag AVE (gwerth cyfatebol hysbysebu) o £200,000. Ymgysylltwyd gyda landlordiaid, tirfeddianwyr a'r sector lletygarwch yn ystod Sioe Frenhinol Cymru hefyd.

Roedd y sylw digidol ac yn y cyfryngau wedi talu ar ei ganfed, wrth i ni weld cynnydd o 127% yn nifer y cysylltiadau gyda Crimestoppers o'u cymharu â'r chwarter blaenorol. Yn ogystal, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau yr oeddent yn ymwneud â chyffuriau Dosbarth A. Bu nifer yr adroddiadau yr oeddent yn cyfeirio at Linellau Sirol dair gwaith yn uwch ac roedd gwybodaeth Crimestoppers wedi galluogi pum arestiad yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

Mae Crimestoppers Cymru yn parhau i fod yn bartner allweddol ym Mhrosiect Diogel yn ardal Dyfed Powys, sef ymateb amlasiantaethol er mwyn atal trais difrifol a throseddu cyfundrefnol.

# Astudiaethau achos ynghylch ymgysylltu

## Canlyniadau calonogol o fynd i'r afael â niwed cudd yn Llundain

Mae Crimestoppers wedi cael cyllid dros dair blynedd gan Ymddiriedolaeth City Bridge i gynnal ymgyrchoedd arloesol sy'n codi ymwybyddiaeth ac sy'n canolbwyntio ar fathau o droseddau Niwed Cudd yn Llundain.

Nod y prosiect cyffredinol hwn yw lleihau Niwed Cudd trwy wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae'r troseddau hyn yn ei olygu, a'u haddysgu ynghylch sut i adnabod yr arwyddion yn gynnar. Roedd yr ymgyrchoedd wedi annog pobl i adrodd gwybodaeth mewn ffordd hollol ddienw.

Mae Niwed Cudd yn cynnwys masnachu pobl, caethwasiaeth fodern, trais domestig a throseddau casineb. Er nas adroddir ddigon am y troseddau hyn yn aml, nid yw union faint y broblem yn hysbys. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y niferoedd yn cynyddu.

Wrth gynllunio a rhannu deunyddiau ymgyrchu, gweithiom mewn partneriaeth agos â MOPAC (Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu), y Gwasanaeth Heddlu Metropolitanaidd, yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol, Heddlu Dinas Llundain ac elusennau gan gynnwys Cymorth i Ddioddefwyr, Stop the Traffik, a Stop Hate UK.

Lluniwyd delweddau penodol ar gyfer ymgyrch Niwed Cudd Llundain er mwyn adlewyrchu'r gymuned amrywiol sy'n byw yn, sy'n cymdeithasu yn ac sy'n teithio yn Llundain.

At ei gilydd, gwelom gynnydd o 220% yn nifer yr adroddiadau a gafwyd ynghylch mathau o droseddau Niwed Cudd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn hynod o gadarnhaol, wrth i ni gyrraedd llawer o boblogaeth Llundain ac ymgysylltu â nhw mewn ffordd weithredol yn ystod yr ymgyrch. Ond mae mwy i'w wneud o hyd.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn Llundain i sicrhau bod ymgyrchoedd a gynhelir dros y ddwy flynedd nesaf yn parhau i godi ymwybyddiaeth a chyfrannu at greu cymunedau cryfach a mwy diogel ar draws prifddinas y DU.



## Niwed Cudd – Allbynnau a Chanlyniadau:

3 ymgyrch ar wahân: Lansiwyd un ynghylch troseddau casineb yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref 2019. Lansiwyd un ynghylch cam-drin domestig ym mis Tachwedd i gyd-fynd â'r cyfnod cyn y Nadolig, a lansiwyd un ynghylch caethwasiaeth fodern ym mis Chwefror

Roedd pob ymgyrch yn cynnwys hysbysebion y talwyd amdanynt ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â phresenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol, cyflwyniadau i'r rhai sy'n gweithio mewn gwestai yn Llundain, cyfreithwyr, arweinwyr ffydd ac mewn mosgiau

At ei gilydd, llwyddom i gyrraedd 910,480 yn Llundain mewn ffordd ddigidol

Roedd dros 100,000 o bobl wedi ymgysylltu â'r ymgyrch ar-lein

Gwelwyd cynnydd o 61% yn nifer yr adroddiadau ynghylch caethwasiaeth fodern yn ystod yr ymgyrch o'i chymharu â'r bythefnos cyn hynny

Gwelwyd cynnydd o 150% yn nifer yr adroddiadau ynghylch troseddau casineb yn ystod yr ymgyrch o'i chymharu â'r bythefnos cyn hynny

Gwelwyd cynnydd o 9% yn nifer yr adroddiadau ynghylch cam-drin domestig o'i chymharu â'r bythefnos cyn hynny



# Straeon stopwyr

## Arfau tanio a Llinellau Sirol

Enwodd Crimestoppers unigolyn a oedd yn masnachu cyffuriau ac yr oedd ganddo ddrylliau a chyllyll yn ei feddiant. Pan aeth yr heddlu i chwilio dau gyfeiriad a enwyd, darganfuwyd cyffuriau Dosbarth A a oedd yn werth £10,000 yn ôl amcangyfrifon. Atafaelwyd symiau sylweddol o heroin a chrac cocên ac arian parod hefyd, yn ogystal â dryll, bwledi a chleddyf. Arestiwyd a chyhuddwyd dau unigolyn. Yn ogystal, arweiniodd ein gwybodaeth at archwiliad lles o unigolyn agored i niwed, yr oedd y gang wedi cymryd drosodd ei gartref.

## Cynnydd o 43% yng nghyfanswm y wybodaeth yn dilyn ymgyrch adweithiol ynghylch arfau tanio yn Sheffield

Gofynnwyd am ymateb cyflym gan Heddlu De Swyddog Efrog yn dilyn nifer o ddigwyddiadau difrifol a oedd yn cynnwys arfau tanio ger Sheffield. Defnyddiwyd drylliau llaw a pheirianddryll bychan yn ddiweddar, gan gynnwys dyn y saethwyd ato. Credwyd mai gwraidd y drwg oedd cystadleuaeth rhwng dau gang troseddu cyfundrefnol a oedd yn gysylltiedig gyda chyflenwi cyffuriau.

Gan bod bywyd aelodau diniwed o'r cyhoedd mewn perygl, yn ogystal â chysylltiadau teuluol ehangach agos gyda'r rhai a oedd yn gysylltiedig â'r rhyfel rhwng y gangiau cyffuriau, lansiom ymgyrch gynhwysfawr ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd hon yn cynnwys talu am hysbysebu, dosbarthu cardiau post i leoliadau a dargedwyd a hysbysebu ar ffonau digidol. Rhoddwyd sylw i'r ymgyrch yn y wasg leol ac fe'i hyrwyddwyd ar Fan hysbysebu digidol a fu'n teithio o gwmpas ardaloedd perthnasol.

Yn dilyn yr ymgyrch a oedd wedi para pythefnos, gwelsom gynnydd trawiadol o 43% o ran cyfanswm y wybodaeth a gawsom ynghylch arfau tanio. Helpodd y wybodaeth hon i gyd-fynd â gwybodaeth yr heddlu, gan alluogi'r llu hwn i greu darlun manylach o leoliad drylliau a'r cyflawnwyr.

# Astudiaethau achos addysg

“Os ydych chi’n ffoadur neu’n geisiwr lloches yn yr Alban, mae’n bwysig eich bod yn teimlo bod croeso i chi a’ch bod yn gwybod eich hawliau.  Mae hwn yn ddatblygiad rhagorol sy’n sicrhau y clywir lleisiau pawb.”

Malcolm Graham, Dirprwy Brif Gwnstabl



## Apêl ar BBC Radio 4 yn helpu i roi hwb i broffil ein helusen

Mae'r BBC wedi cynnal apeliadau ar ran achosion da er 1926, gyda'r nod o hyrwyddo a chodi arian y mae cryn angen amdano er mwyn cynorthwyo achosion elusennol.

Bron ganrif yn ddiweddarach, roedd Crimestoppers wrth ei bodd o chael ei chynnwys ar Apêl BBC Radio 4 ym mis Mehefin 2019.

Bu'r slot tair munud yn gyfle hollbwysig i ni arddangos ein gwaith, ymgysylltu â gwrandawyr newydd a rhoi hwb i'n proffil, ac fe'i gyflwynwyd gan y cyn Gomisiynydd Dioddefwyr, Barwnes Helen Newlove, sydd wedi bod yn ein cefnogi ers amser hir. Darlledwyd yr apêl dair gwaith yn ystod yr wythnos.

Llwyddwyd i godi dros £6,300, ynghyd â'r fantais ychwanegol o gadarnhau ein statws fel elusen annibynnol i gynulleidfa radio bwysig a dylanwadol.

## Derbyniad yn Senedd yr Alban yn croesawu rhaglen Newydd Fearless ar gyfer Pobl Ifanc yr Alban

Mae rhai o'r grwpiau o bobl mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid. Maent yn wynebu llu o sialensiau sy'n ddigon i'w drysu, gan eu bod yn byw mewn gwlad newydd y mae ganddi wahanol gyfreithiau, ieithoedd a diwylliannau.

Yn aml, fe'u lleolir mewn ardaloedd difreintiedig iawn, lle y gwelir cryn droseddu. Gall plant a phobl ifanc heb gwmni weld y cyfnod o symud i ysgol newydd yn anodd mewn amgylchedd hollol anghyfarwydd. Yn aml, ni fyddant wedi cael nifer o'r dosbarthiadau PSHE (Personol, Cymdeithasol, Iechyd ac Economaidd) gwerthfawr y bydd eu cyfoedion yn yr Alban wedi bod yn eu cael ers yr oeddent yn ifanc.

Thema gyffredin yw bod gormod o ofn arnynt i adrodd am droseddu oherwydd eu bod wedi dioddef profiadau trawmatig gyda'r heddlu a'r awdurdodau yn eu gwlad enedigol, lle'r oeddent wedi ffoi rhag erledigaeth. Byddant yn gofidio am gymhlethu eu cais am loches pe byddent yn adrodd am drosedd, neu o gael effaith negyddol arno.

Arweiniodd rhaglen ein helusen Fearless i bobl ifanc yn yr Alban at brosiect arloesol sy'n gweithio gyda phobl ifanc newydd yn yr Alban er mwyn eu hannog i wybod mwy am y gyfraith ac i fod **#HebOfn** wrth godi eu llais am droseddu mewn ffordd ddienw trwy gyfrwng **Fearless.org**.

Ymgysylltom â channoedd o bobl ifanc sy'n mynd trwy'r broses loches neu a sicrhaodd statws ffoadur yn yr Alban yn ddiweddar.

Arweiniwyd y rhaglen gan grŵp llywio o bobl ifanc y mae ganddynt brofiad personol o'r broses loches. Nid oedd dros hanner ohonynt yn ymwybodol o rif 999, ac roedd nifer ohonynt yn credu mai 991 neu 911 ydoedd. O ganlyniad i'r gweithgarwch ymgysylltu hwn, lluniwyd ystod o adnoddau a threfnwyd hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth ymhlith y grŵp hwn o newydd-ddyfodiaid a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.

Yn ystod yr ymgyrch a oedd wedi para pythefnos, gwelwyd nifer yr ymwelwyr newydd â gwefan Fearless.org yn codi 87% a gwyliwyd fideos yr ymgyrch dros 7,000 gwaith. Mynychodd dros 35 o bartneriaid ar draws Llywodraeth yr Alban a'r trydydd sector ein digwyddiad rhwydweithio a'n sesiynau 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' Fearless. Rhoddwyd cydnabyddiaeth swyddogol i raglen 'Grymuso Pobl Ifanc Newydd yr Alban i fod Heb Ofn' – a fu'n bosibl oherwydd cyllid gan gymynrodd Percy Hoskins – yn ystod derbyniad a gynhaliwyd yn Senedd yr Alban yn ystod Wythnos Ffoaduriaid y Byd.

# Astudiaethau achos addysg

## Cael cyswllt gydag ynyswyr Orkney yn ystod ymweliad dwys dros 3 diwrnod

Mae Ynysoedd Orkney, sy'n gorwedd ychydig y tu hwnt i dir mawr yr Alban, yn enwog am eu golygfeydd prydferth, ac maent yn Safle Treftadaeth Byd UNESCO dynodedig.  Fel pob ynys fach, fodd bynnag, bydd pobl yn aml yn amharod i siarad â'r heddlu gan bod ofn arnynt y bydd pobl yn dod i wybod pwy ydynt.

Gyda phoblogaeth o 21,000, mae'r ynysoedd yn wynebu cynnydd mewn problemau megis dynion hŷn yn meithrin perthynas amhriodol gyda merched ifanc yn eu harddegau, yfed a gyrru ac yfed dan ddylanwad cyffuriau.  Ym mis Medi, cychwynnodd Crimestoppers yr Alban ar ymweliad 3 diwrnod cynhwysfawr i gyfarfod yr Ynyswyr wyneb yn wyneb ac i rannu gwybodaeth am wasanaeth dienw unigryw yr elusen.

Cynhaliodd ein staff amrediad o gyflwyniadau cymunedol, gan gynnwys hyfforddiant Cenhadon Fearless, sesiwn i ffermwyr ifanc a digwyddiad 'Te Cymunedol' i bartneriaid dinesig allweddol, yr heddlu a'r cyhoedd.

Rhoddwyd cyfle i ynyswyr glywed sut y mae'n gwasanaeth dienw yn gweithio, sut yr ydym yn trosglwyddo gwybodaeth i'r heddlu a sut y mae cysylltiadau â'n helusen yn helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel. Buom yn byw-ffrydio rhai cyflwyniadau hefyd, a oedd wedi galluogi i rai sy'n byw ar yr ynysoedd pellaf i ffwrdd i ymuno a dysgu mwy am yr hyn y mae Crimestoppers a Fearless yn ei gynnig i'n buddiolwyr.

Croesawyd y prosiect allgymorth a rhoddwyd sylw mawr iddo yn y wasg, a ffurfiwyd grŵp o wirfoddolwyr newydd i hyrwyddo ein helusen hefyd.

"Yn fy ngwlad i, ni fyddant yn sôn wrthych am y gyfraith, byddant yn eich curo chi ac nid ydych yn gwybod eich hawliau. Ac yma byddwch yn sôn wrthyf am y gyfraith a'r hyn y gallaf ei wneud.  Mae hyn yn peri i mi deimlo'n gryfach."

Dywedodd un person ifanc am brosiect Fearless.org.



# Straeon stopwyr

## Fearless/troseddau cyllyll

Cafodd Crimestoppers wybodaeth bod gan rywun gyllell 15" a'u bod yn postio lluniau ohoni ar gyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, stopiwyd yr unigolyn gan yr heddlu a darganfuwyd cleddyf yn eu meddiant. Fe'u harestiwyd a rhoddwyd rhybudd ieuenctid iddynt.

## Cyfres newydd o bodlediadau yn rhoi sylw i effaith troseddau cyllyll

Mewn tirlun cyfryngau sy'n newid yn gyflym, mae podlediadau yn ffordd arall o ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd newydd.

O ystyried hyn, lansiodd Crimestoppers gyfres newydd o bodlediadau ym mis Tachwedd o'r enw 'Sgyrsiau Cymunedol'. Roeddent yn archwilio i ba raddau yr oedd troseddau cyllyll wedi effeithio ar gymunedau, ac roeddent yn cynnwys pobl leol. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys y rhai yr oedd eu bywydau wedi newid am byth oherwydd troseddau cyllyll, ynghyd â chriw ambiwlans, meddyg sy'n gweithio mewn adran ddamweiniau ac achosion brys, cyn droseddwr, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu a phartneriaid elusennol eraill.

Roedd y ffurf yn dilyn trafodaeth panel gyda sesiwn Holi ac Ateb gan aelodau'r gynulleidfa.

Ymwelodd y gyfres a oedd yn cynnwys pedair rhan â chymunedau yn Llundain, Abertawe, Surrey a Tyneside. Estynnwyd gwahoddiad i'r gwrandawyr ddysgu mwy am effaith troseddu ar ardaloedd lleol, yr hyn y mae pobl yn ei wneud i'w atal a sut y gallant helpu i fynd i'r afael â'r broblem.

Recordiwyd yr holl bodlediadau mewn lleoliadau cymunedol o flaen cynulleidfa a wahoddwyd ac a oedd yn cynnwys pobl a oedd yn cynrychioli grwpiau gwahanol o'r ardal leol. Roedd y sawl a fynychodd wedi teimlo y bu'r digwyddiadau yn rhai gwerth chweil a chyffroadol, a'u bod wedi galluogi trafodaeth bwysig.

Yn ogystal ag addysgu'r cyhoedd yn fwy am ein gwasanaeth, roedd y podlediadau hyn yn addas i lunwyr polisi, llunwyr cyfreithiau, awdurdodau lleol ac eraill hefyd. Maent ar gael o hyd i'w ffrydio ar draws yr holl brif blatfformau podlediadau, a gwrandawyd arnynt dros 1,000 gwaith hyd yn hyn. Mawr obeithiwn ddatblygu podlediadau pellach yn y dyfodol.

# Astudiaethau achos ynghylch dirnadaeth



"Yn gynnar, gwelsom bod nifer yr adroddiadau ynghylch cam-drin domestig yn tyfu'n sylweddol. Roedd hyn yn wahanol i'r duedd gyffredinol lle y gwelwyd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau ar draws y rhan fwyaf o fathau o droseddau."

## Cyfnod clo y coronafeirws a cham-drin domestig

Cychwynnwyd cyfnod clo y DU ar ddydd Llun 23 Mawrth 2020, er mwyn helpu i atal feirws Covid-19 rhag lledaenu ac effeithio ar ein GIG. Byddai'n esgeulus i ni beidio myfyrio am y ffordd yr effeithiodd hyn ar ein sefydliad yn ystod diwedd y flwyddyn.

Yn gyntaf, bu'r effaith bersonol ar ein staff rheng flaen. Aethom ati i gadw ein gwasanaeth ar agor er gwaethaf y sialensiau. Bu'r ymateb gan dîm ein Canolfan Gyswllt yn syfrdanol.

O'r cychwyn, dechreuom fonitro nifer y bobl a oedd yn cysylltu â ni yn ystod y cyfnod clo a'r mathau o droseddau yr oeddent yn sôn amdanynt.

Yn gynnar, gwelsom bod nifer yr adroddiadau ynghylch cam-drin domestig yn tyfu'n sylweddol. Roedd hyn yn wahanol i'r duedd gyffredinol lle y gwelwyd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau ar draws y rhan fwyaf o fathau o droseddau. Ymatebom i hyn yn gyflym, gan gyfeirio at y datblygiad gofidus hwn a chan apelio i'r cyhoedd i fod yn ymwybodol o hyn ac i barhau i gyfleu gwybodaeth am y drosedd hon. Bu hyn yn llwyddiannus iawn.



## Straeon stopwyr

### Cam-drin Domestig

Cafodd Crimestoppers wybodaeth ynghylch diogelwch a lles unigolyn yr oedd ei phartner yn torri eu hamodau mechnïaeth ddomestig. Diolch i'n gwybodaeth ni, daeth yr heddlu o hyd i'r cyflawnwr ac fe'i cyhuddwyd.

# Ein gwasanaeth:

Cyswllt wrth y cyhoedd:
**593,940**

Ar-lein:
**345,096**

Ffôn:
**248,844**

Adroddiadau a anfonwyd at yr heddlu:
**172,317**

## Canlyniadau plismona:

Rhoddodd hyn o leiaf

**122,505**

darn o wybodaeth gyfreithadwy i'r heddlu, a ddefnyddiwyd ganddynt er mwyn cyflawni o leiaf:

Canlyniad cadarnhaol[1]
**23,320**

Arestio a chyhuddo[2]
**2,077**

Adfer eiddo
**£443,518**

Atafaelu cyffuriau
**£9,520,325**

## Troseddau ffocws:

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar y mathau canlynol o droseddau sy'n bwysig i ni, ein partneriaid a'r cyhoedd.

Nifer yr adroddiadau a anfonwyd at yr heddlu am y mathau canlynol o droseddau, a'u newid o'i chymharu â'r sefyllfa y llynedd:

Cam-drin domestig
**4,006** I fyny **45%**

Caethwasiaeth fodern
**679** Dim newid

Ym meddiant arfau
**19,445** I fyny **40%**

Llinellau Sirol
**499** I fyny **116%**

Cam-drin plant a chamfanteisio ar blant
**2,202** I fyny **8%**

Sylwer: Bydd y ffigurau hyn yn codi dros y misoedd nesaf, gan nad yw 15 heddlu (31%) wedi darparu'r ffigurau blynyddol llawn eto (ar ddiwedd mis Mehefin 2020). Mae hyn yn cynnwys 5 heddlu yr ydym yn gwybod na fyddant yn darparu set gyflawn o ddata adborth. Nid yw'r adborth go iawn gan heddluoedd yn dangos gwerth llawn gwybodaeth ddienw. Ceir 11 heddlu sy'n darparu adborth llawer gwell ynghylch arestio a chyhuddiadau nag eraill. Gan ddefnyddio eu cyfradd ddychwelyd gyfartalog o 8% o wybodaeth gyfreithadwy, gallwn amcangyfrif y byddai nifer 'go iawn' yr arestiadau dros 10,000 ar draws y DU.

1 Canlyniad plismona lle na chaiff unrhyw un eu harestio, ond ceir canlyniad llwyddiannus e.e. ataliwyd trosedd rhag digwydd, gweithgarwch diogelu, llwyddwyd i gau safle cyffuriau, adferwyd eiddo, ac ati.
2 Cyhuddiad, gwŷs, ei ystyried neu rybuddiad arall heb fod mewn llys barn, rhybudd, hysbysiad cosb neu ddatrysiad cymunedol

# Arolwg Stopwyr 2019



## Yr hyn a ddywedodd ein defnyddwyr ar-lein a defnyddwyr ein llinell ffôn wrthym am eu hunain.

Am y pedwerydd tro, rydym wedi arolygu defnyddwyr ein gwasanaeth, yn ddienw, er mwyn dysgu mwy amdanynt a'r hyn y maent yn ei werthfawrogi am ein gwasanaeth. Ymatebodd dros 2,000 o bobl. Rydym yn defnyddio'r data hwn i wneud gwelliannau i'n gwasanaeth, o'r Ganolfan Gyswllt i'n gwaith marchnata.


## Tybiaethau o'n gwasanaeth a'r heddlu

Mae arolygon blaenorol wedi dangos bod dros 90% o ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn teimlo bod ein haddewid i gadw manylion y sawl sy'n cysylltu â ni yn ddienw yn bwysig iawn neu'n hanfodol. Y tro hwn, holom am ein statws fel elusen annibynnol. Ar-lein a dros y ffôn, mae 86% o'n defnyddwyr yn dweud bod hyn yn bwysig iddynt.

Roeddem yn dymuno deall a yw ein defnyddwyr wedi ceisio adrodd eu gwybodaeth i'r heddlu yn flaenorol. Ar draws y ddwy sianel, nid oedd 58% o ddefnyddwyr wedi cysylltu â'r heddlu. Fodd bynnag, roedd 42% o'r bobl a oedd wedi rhoi gwybodaeth i ni yn fodlon siarad â'r heddlu yn y lle cyntaf.

- Roedd 19% wedi adrodd i'r heddlu ond nid oeddent yn credu bod unrhyw beth wedi cael ei wneud.
- Nid oedd 15% o ddefnyddwyr wedi gallu cysylltu â'r heddlu.
- Roedd yr heddlu wedi cyfeirio 8% atom.


Rydym yn ystyried ymestyn ein gwasanaeth fel y gall defnyddwyr anfon delweddau atom. Mae'n bosibl gwneud hyn ac aros yn ddienw. Byddai 50% o ymatebwyr i'n harolwg yn lanlwytho delweddau, a byddai 61% o'n hymatebwyr ar-lein yn gwneud hynny.



## Demograffeg

Casglwyd gwybodaeth ddemograffeg eto i weld a oes unrhyw newidiadau.

- O ran rhyw, rydym yn gweld rhaniad cyfartal o hyd rhwng defnyddwyr gwrywaidd a benywaidd ar draws y ddwy sianel. Fodd bynnag, mae dynion ychydig yn fwy tueddol o ddefnyddio'r ffôn a menywod ychydig yn fwy tueddol o fynd ar-lein, sy'n rhywbeth newydd.
- Rydym yn parhau i weld set ychydig yn hŷn o ddefnyddwyr ar y ffonau nag ar-lein. Mae'n defnyddwyr fwyaf tebygol o fod rhwng 35 a 49 oed neu'n hŷn, ac mae 64% ohonynt dros 35 oed.
- O ran ethnigrwydd, rydym yn parhau i weld lefel uwch o ddefnyddwyr BAME ar y ffôn (20%) nag ar-lein (10%). Gwelir mwy o amrywiaeth ethnig ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth ffôn (yn enwedig pobl o gefndir Asiaidd sy'n ffonio) nag a welir yn y boblogaeth gyffredinol.



# Pum mlynedd o dwf...



## Demograffeg


Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae'n gweithgarwch elusennol yn ein Canolfan Gyswllt wedi tyfu dros 50%. Y prif ysgogiad ar gyfer hyn fu'r cynnydd yn nifer y ffurflenni ar-lein a gyflwynir trwy ein gwefan. Rydym wedi gweithio'n galed i wella'r 'profiad i ddefnyddwyr':

- Mae ein gwefan yn hollol addas ar gyfer dyfeisiau symudol
- Bydd ymgyrchoedd ar-lein wedi'u targedu yn tywys pobl i'n ffurflen ddienw yn uniongyrchol
- Bellach, mae'r ffurflen yn tywys defnyddwyr trwy'r broses i wella ansawdd gwybodaeth

Mae'r graff hwn yn cymharu'r twf canrannol bob blwyddyn yn gynyddol gyda 2014/15.

Yn ystod y cyfnod, mae nifer y galwadau ffôn a gawsom wedi aros yn gyson. Mae nifer y ffurflenni ar-lein a gyflwynwyd wedi codi 131%.

Mae'r graff hwn yn dangos twf go iawn y cyswllt fesul sianel.



## Math o droseddau yr ydym wedi canolbwyntio arnynt:


Dros y bum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi penderfynu blaenoriaethu ein hymdrechion ar ychydig droseddau sy'n peri niwed mewn ffordd anghymesur, ac y maent fel arfer yn rhai cudd, a lle'r oeddem yn credu y gallem wneud mwy.  Er y bu'r twf cyffredinol yn sylweddol, rydym wedi gwneud yn well fyth yn y meysydd penodol hyn.

Dros y dair blynedd ddiwethaf, rydym wedi ehangu ein ffocws i ystyried bygythiadau sy'n dod i'r amlwg gan Linellau Sirol a bod ym meddiant arfau. Rydym wedi llwyddo i gynyddu nifer yr adroddiadau am Linellau Sirol yn gyson, o ganlyniad i'n gweithgarwch ymgyrchu am y mater, a dealltwriaeth gynyddol y cyhoedd.

Mae gwybodaeth ynghylch arfau wedi tyfu 179% dros y dair blynedd i bron i 20,000 o adroddiadau yn 2019/20, o'i gymharu â thwf cyffredinol o 11%.

Rydym yn cynnal dadansoddiadau manylach o'r troseddau hyn, sy'n cynnig dealltwriaeth well i ni a'n partneriaid, ac sy'n helpu i ddylanwadu ar ein dull yn y dyfodol.

### Twf o ran nifer yr adroddiadau dros 5 mlynedd




| Adroddiadau – Math o drosedd | 2015/16 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Pob trosedd | 109,584 | 172,317 |
| Cam-drin domestig | 547 | 4,006 |
| Caethwasiaeth fodern | 250 | 679 |
| Cam-drin plant yn rhywiol | 511 | 2,202 |

# Datblygu'r Busnes



Mae'n gweithgareddau Datblygu Busnes yn cynorthwyo amcanion cyffredinol ein helusen o helpu i gasglu gwybodaeth am droseddau mewn ffordd ddienw. Yn ogystal â chreu incwm i gynorthwyo gyda'n costau craidd, mae partneriaethau masnachol gyda sefydliadau sy'n rhannu ein gwerthoedd yn cynnig platfformau effeithiol i gyfathrebu pryderon ynghylch troseddu gyda'r cyhoedd.

## Mae angen i'r elusen sicrhau incwm anstatudol er mwyn ein helpu i fod yn fwy effeithiol, ac i ddangos mwy o annibyniaeth.

Mae'n gwasanaethau masnachol yn ffit naturiol gan eu bod yn cyd-fynd â'n gweithgareddau elusennol ac yn rhedeg law yn llaw â nhw. Maent yn manteisio ar seilwaith ac arbenigedd sy'n bodoli eisoes o fewn Crimestoppers. Rydym yn darparu'r gwasanaethau canlynol i gorfforaethau, sefydliadau anstatudol a heb fod yn rhai heddlu, gan eu helpu i feithrin darlun o droseddu sy'n effeithio arnynt.

## Chwythu'r chwiban

Hwn yw ein gwasanaeth sydd wedi bod yn rhedeg hiraf, ac mae'n darparu incwm rheolaidd gan ystod amrywiol o gwmnïau a sefydliadau eraill, o yswiriant a chynhyrchu bwyd i fanwerthu a chwaraeon. Rydym yn gweithredu mewn maes hynod gystadleuol gyda darparwyr masnachol. Mae'n cleientiaid yn gwerthfawrogi ein natur unigryw, gan gynnwys brand Crimestoppers a'r gwarant ynghylch cadw pobl yn ddienw.

## Ymgyrchoedd sy'n defnyddio ein Heiddo Deallusol

Yma rydym yn gweithio gyda chwmnïau a sefydliadau eraill i ddefnyddio brand Crimestoppers er mwyn amlygu materion troseddu sy'n gysylltiedig â'u busnes, ac yn aml er mwyn annog adrodd dienw.

Gan fynd i'r afael â bygythiadau iechyd ac o ran troseddu cyfundrefnol tybaco anghyfreithlon, defnyddiodd Safonau Masnach Manceinion Fawr wasanaeth Crimestoppers mewn ffordd lwyddiannus i sicrhau cynnydd o 23% yn nifer yr achosion atafaelu o'u cymharu â'r niferoedd y llynedd. Dros y flwyddyn, anfonom 266 o adroddiadau atynt am ddillad, disgiau DVD a Chryno Ddisgiau, tybaco, alcohol, arian, nwyddau trydanol a bwyd ffug. Roedd yr uchafbwyntiau a welwyd yn cyd-fynd â'u gweithgarwch ymgyrchu – sy'n dangos bod hwn yn offeryn effeithiol.

"Dywedodd y sawl a oedd yn galw wrthym am fesurydd trydan yr oedd rhywun wedi amharu ag ef, mewn eiddo yr oedd tenant newydd yn symud iddo. Bu ein peirianwyr yn cael gwared ar yr amhariad, gan sicrhau bod pwynt y mesurydd yn ddiogel. Nid oedd y cwsmer yn ymwybodol o'r ffaith bod rhywun wedi tarfu ar y mesurydd ac y gallai fod wedi bod yn beryglus iddyn nhw a'u teulu. Roeddent yn falch iawn ein bod wedi gallu ymyrryd, gan sicrhau bod popeth yn ddiogel."







## Rhannu gwybodaeth


Mae hwn yn wasanaeth sydd wedi esblygu dros y bedair blynedd ddiwethaf, lle'r ydym yn rhannu gwybodaeth o'n gwasanaeth cyhoeddus gyda chorfforaethau, sefydliadau anstatudol a sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau heddlu.  Gwybodaeth yw hon sy'n ymwneud â bygythiadau posibl o'r tu allan i'w busnes ac o du mewn eu busnes, fel y gallant weithio gydag awdurdodau i ymchwilio.


## Llinellau adrodd cyhoeddus am droseddau penodol

Rydym yn rhedeg llinellau cymorth ar ran partneriaid ynghylch materion penodol sy'n ymwneud â throseddu, y maent yn gyfrifol am ymchwilio iddynt. Heb os, ein partneriaeth fwyaf yw ein partneriaeth gyda'r diwydiant nwy a thrydan, y mae bellach wedi bod yn rhedeg am bum mlynedd ac sy'n dwyn yr enw "Stay Energy Safe".

Mae'r gwasanaeth hwn yn annog aelodau'r cyhoedd i adrodd am unrhyw weithgarwch i darfu ar fesuryddion, sy'n drosedd ac sy'n peryglu bywydau. Mae nifer y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth hwn, a nifer y darnau o wybodaeth a drosglwyddwyd i'r cwmnïau ynni, wedi tyfu dros 190% ers y'i lansiwyd (mae'r graff isod yn dangos data cymharol o fis Medi i fis Mai).

At ei gilydd, cyfanswm yr adroddiadau a ledaenwyd gan Crimestoppers rhwng mis Medi 2016 a mis Mai 2020 yw 15,144.  Mae'r rhain yn niferoedd enfawr o gyfleoedd ychwanegol i gwmnïau ynni ymchwilio i ddigwyddiadau ac adfer refeniw a gollwyd oherwydd dwyn ynni – a chadw pobl yn ddiogel, fel y mae'r enghraifft (isod ar y chwith) gan Octopus Energy yn datgelu:





Y llynedd, aethom 'ar y ffordd' i glywed gan ein gwirfoddolwyr, ein rhanddeiliaid a'n staff am yr hyn y mae ei angen ar ein helusen er mwyn iddi fod yn llwyddiannus dros y blynyddoedd i ddod.  Roedd profiad hynod o galonogol wedi dangos i ni faint y mae pobl yn gwerthfawrogi ein gwasanaethau, ond hefyd, y ffyrdd y gallwn wella ansawdd ein gwaith.

# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Bellach, rydym wedi cytuno ar strategaeth ar gyfer y dyfodol, sy'n datblygu llwyddiannau y bum mlynedd ddiwethaf ac sy'n cadarnhau'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu.  Rydym yn edrych ymlaen i weld cymuned gyfan Crimestoppers yn cydweithio i gyflawni hyn.


## Credwn yng ngrym pobl i atal troseddu.

Mae'r grym yn ymwneud â chodi llais – mae tawelwch yn caniatáu i droseddwyr ffynnu, i wneud niwed i ni a'r rhai yr ydym yn ymboeni amdanynt.

- Pan fyddwch yn codi eich llais am weithgarwch troseddol, caiff troseddau eu datrys a'u hatal.
- Pan fyddwch yn gweithredu i gadw eich hun ac eraill yn ddiogel, bydd llai o ddioddefwyr.
- Pan fyddwch yn herio'r diwylliant sy'n cadw pobl yn dawel, gallwch helpu i stopio troseddu.

## Mae'n haddewid ynghylch bod yn ddienw i bawb sy'n troi atom wrth wraidd ein Canolfan Gyswllt, ac mae'n rhan annatod ohoni.

Rhaid i ni lwyr sylweddoli'r her.  Mae'r amgylchedd cyfiawnder troseddol ehangach yn llai nag yr oedd 30 mlynedd yn ôl, ac mae troseddu cyfundrefnol yn mynd yn fwyfwy cymhleth;  ffactorau sy'n gallu ein tanseilio.  Mae'r rhesymau dros beidio codi llais yn bersonol, yn gymhleth ac yn aml wedi eu hen sefydlu;  fel y gwelwch o'r dyfyniadau canlynol.  Mae'r rhwystrau yn cynnwys ofn a bygythion, difaterwch, diffyg gwybodaeth, dibyniaeth ar droseddoldeb, cred na fydd unrhyw beth yn cael ei wneud.  Mae newid yr ymddygiad a'r agweddau hyn yn ymdrech dros y tymor hir.



## Ymchwil ansoddol 2016:

**Roeddwn yn dymuno "gwneud rhywbeth" ond roeddwn yn ofni'r hyn a fyddai'n digwydd pe bai'r fenyw yn fy adnabod.**

**Rhaid mai'r heddlu sy'n rhedeg Crimestoppers. Pwy arall fyddai'n gwneud hynny?**

**Pe byddwn yn adrodd am rhywbeth, gwn y gallai arwain at rywbeth yn digwydd i mi – a byddai'r plant mewn perygl.  Maent yn gwybod ble'r wyf yn byw.**

**Ni fyddai'r heddlu yn rhuthro yma i'w dal, beth yw'r pwynt?**

**Yr hyn yr wyf yn ei wybod?  Nid yw'n ddigon i wneud gwahaniaeth.**

**Ond mae gobaith, ac rydym yn rhan o gymuned sy'n benderfynol o roi stop ar droseddu.**

**Os ydynt yn elusen, maent i'w canmol yn fawr. Maent yn mynd ati i helpu heb gael unrhyw beth yn ôl i'w hunain.**



# Nawr yw'r amser i'r elusen godi ei llais

## Byddwn yn:

- Meithrin ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaeth trwy adrodd stori ein helusen a gwaredu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag codi eu llais.
- Denu mwy o bobl a sefydliadau i gefnogi ein helusen.

## Bydd hyn yn ein caniatáu i:


- Wella ansawdd ein gwybodaeth trwy annog pobl newydd i gysylltu â ni yn ddienw.

Mae'r diagram hwn yn cynrychioli sut y bydd yr elusen yn dod ynghyd i sicrhau y gallwn helpu mwy o'n buddiolwyr nag erioed o'r blaen.



## Ein gweledigaeth: Bod pawb yn teimlo'n ddiogel rhag troseddu

Codi llais. Aros yn ddiogel. Atal troseddu



# Uchafbwyntiau ariannol





## Crynodeb o'r Datganiad Gweithgareddau Ariannol Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

## Datganiadau ariannol cryno

Nid y cyfrifon statudol yw'r datganiadau ariannol cryno, ond crynodeb o'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r datganiadau cyfunol o'r gweithgareddau ariannol a'r fantolen gyfunol o Adroddiad a datganiadau ariannol Ymddiriedolwyr yr elusen, wedi'u harchwilio'n llawn, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 27 Gorffennaf 2020.

Roedd datganiad yr archwilwyr yn unol â'r hyn a ragnodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ddiamod. Yn dilyn hyn, caiff copïau o'r datganiadau ariannol llawn eu ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban a Thŷ'r Cwmnïau. Efallai na fydd y datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i gael dealltwriaeth gyflawn o faterion ariannol yr elusen.

Mae Adroddiad a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolwyr, wedi'u harchwilio'n llawn, ar gael ar wefan yr elusen, www.crimestoppers-uk.org, neu gellir gwneud cais i swyddfa ganolog yr elusen am gopi.



Peter Gaze FCA, Ymddiriedolwr

27 Gorffennaf 2020

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | **2020** | **2019** |
| Incwm gan weithgareddau elusennol | 2,989 | 2,902 |
| Gweithgareddau Rhoddion a chymynroddion | 2,153 | 1,794 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 706 | 702 |
| Incwm buddsoddi | 4 | 2 |
| **Cyfanswm yr incwm** | **5,852** | **5,400** |
| Gweithgareddau elusennol | 4,964 | 4,696 |
| Gwariant ar godi cronfeydd | 745 | 773 |
| **Cyfanswm y gwariant** | **5,709** | **5,469** |
| Symud cronfeydd net cyn (colledion)/enillion y cynllun pensiwn | 143 | (69) |
| Colledion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | (107) | (4) |
| **Symud net mewn cronfeydd** | **36** | **(73)** |

### Mantolen Gyfunol Gryno ar 31 Mawrth 2020

| **Asedau** | **2020** | **2019** |
|---|---|---|
| Asedau sefydlog | 190 | 267 |
| Asedau cyfredol | 3,702 | 2,980 |
| Credydwyr sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn | (2,466) | (1,962) |
| Diffyg y cynllun pensiwn | (144) | (39) |
| **Cyfanswm yr asedau net** | **1,282** | **1,246** |

| **Sut y caiff ein cronfeydd eu dal** | **2020** | **2019** |
|---|---|---|
| Cyfyngedig gan roddwyr | 234 | 395 |
| Anghyfyngedig | 1,048 | 851 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | **1,282** | **1,246** |

# Datganiad yr archwilydd

## Datganiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Crimestoppers:

**Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol cyfunol cryno Ymddiriedolaeth Crimestoppers am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 sy'n cynnwys y detholiadau o'r Datganiad Gweithgareddau Ariannol a'r Fantolen a nodir ar dudalen 32.**

Caiff y datganiad hwn ei wneud i'r ymddiriedolwyr yn unig, fel corff, er mwyn bodloni gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, diwygiwyd 2015. Cyflawnwyd ein gwaith fel y gallwn ddatgan i'r ymddiriedolwyr y materion hynny yr ydym wedi cytuno eu datgan iddynt yn y datganiad hwn a heb fod am unrhyw ddiben arall.

I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, dros ein gwaith, dros y datganiad hwn, neu'r safbwyntiau a ffurfiwyd gennym.

## Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilydd:

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol â gofynion adran 427 Deddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaed oddi tani ac argymhellion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau.

Ein cyfrifoldeb yw adrodd ein barn i chi ynghylch cysondeb y datganiadau ar dudalen 32 yn yr Adolygiad Blynyddol, gyda'r datganiadau ariannol llawn ac adroddiad yr ymddiriedolwyr a'i gydymffurfiaeth gyda gofynion perthnasol adran 427 Deddf Cwmnïau a'r rheoliadau a wnaed oddi tani.

Yn ogystal, darllenom wybodaeth arall yn yr Adolygiad Blynyddol, gan ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad pe byddem yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau o bwys gyda'r datganiadau ariannol cryno.

## Sail y farn:

Cynhaliom ein gwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'Datganiad yr archwilwyr am y datganiad ariannol cryno' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Mae'n hadroddiad am y datganiadau ariannol llawn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 yn disgrifio sail ein barn am y datganiadau ariannol hynny.

## Barn:

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno a nodir ar dudalen 32 yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am Ymddiriedolaeth Crimestoppers ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ac maent yn cydymffurfio â gofynion perthnasol adran 427 Deddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaethpwyd oddi tani.

Nid ydym wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad pan lofnodom ein hadroddiad am y datganiadau ariannol blynyddol llawn (9 Medi 2020) a dyddiad y datganiad hwn.

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig Mazars LLP 9 Medi 2020

# Diolch



## Yn ogystal â meddu ar y cyfrifoldeb sylfaenol dros redeg ein helusen, mae'n Hymddiriedolwyr yn cynnig arweiniad a chyngor hynod werthfawr er mwyn helpu i wella ein perfformiad hefyd.

Mae'n gwaith yn dibynnu ar gymorth hollbwysig ymddiriedolaethau, sefydliadau, cymuned gorfodi'r gyfrith, a'n partneriaethau gyda'r sector cyhoeddus a masnachol. Trwy rannu ein gwerthoedd, maent yn helpu i hyrwyddo proffil cyhoeddus ein helusen i gynulleidfaoedd newydd, sy'n gallu cael budd gan ein gwasanaeth unigryw.

## Cyfarwyddwyr Ymddiriedolwyr

### Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

- Arglwydd Ashcroft KCMG PC

### Ymddiriedolwyr

- Arglwydd Choudrey CBE
- Mr Peter Clarke CVO OBE QPM
- Ms Angela Entwistle
- Syr Ronnie Flanagan GBE MA
- Mr Richard Gamble FCA
- Ms Ceris Gardner
- Mr Peter Gaze FCA
- Mr Bill Griffiths CBE BEM QPM
- Mr Stewart Harris FCA (penodwyd 13 Tachwedd 2019)
- Mr Michael Laurie CBE
- Mr Barry Mizen MBE (penodwyd 23 Gorffennaf 2019)
- Mr Vivian Robinson (ymddiswyddodd 19 Awst 2019)
- Mr Nick Ross
- Mr Stephen Rubin OBE
- Mr Robert Scott CBE (ymddiswyddodd 19 Awst 2019)
- Syr Paul Stephenson QPM

## Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

- Sefydliad Bestway
- Ymddiriedolaeth Elusennol GM Morrison
- Sefydliad Emerson
- Ymddiriedolaeth Elusennol Mr a Mrs TCS Haywood
- Ymddiriedolaeth Elusennol Henry C Hoare
- Ymddiriedolaeth Elusennol John Swire 1989
- Ymddiriedolaeth Elusennol Peacock
- Ymddiriedolaeth Elusennol Constance Travis
- Cronfa Sefydliad JR Corah
- Ymddiriedolaeth City Bridge
- Cronfa Canmlwyddiant Tesco
- Ymddiriedolaeth Elusennol Michael Cornish
- Ymddiriedolaeth Elusennol Adint
- Ymddiriedolaeth Elusennol 29 Mai 1961
- Ymddiriedolaeth Ingram
- Sefydliad Ratcliff a Setliad Elusennol Ratcliff

## Partneriaethau

- Cymdeithas Siopau Cyfleustra
- B&Q/Screwfix
- Barnardo's
- BASE
- Llu'r Ffiniau
- Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain
- Swyddfa'r Cabinet
- Gwasanaethau Cymorth Carlisle
- Cymdeithas Manwerthu Elusennol
- Comisiwn Etholiadol
- Gwasanaeth Rhybuddio am Ddwyn Ynni
- Bwrdd Criced Cymru a Lloegr
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- EPC-UK
- ESRI
- FACT
- Firestoppers (Gogledd Ddwyrain Lloegr – Gwasanaethau Tân ac Achub Swydd Durham a Darlington, Tyne and Wear a Northumberland)
- First Central
- Safonau Bwyd yr Alban
- Harod
- Henry Squire & Sons Ltd
- HMPPS
- CaThEM
- HSBC
- Gorfodi Mewnfudo
- Sefydliad Safonau yn y Wasg Annibynnol
- Ymddiriedolaeth Diwydiant
- Biwro Twyll Yswiriant
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- Ffederasiwn Rhyngwladol Codi Pwysau
- JELC
- Liberty
- Link ATM
- Lloytron
- Long Clawson Dairy
- Marks & Spencer
- Morrisons
- Muller
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
- NEXT
- Awdurdod Gwrth-dwyll GIG
- Gwasanaethau Gwrth-dwyll GIG Yr Alban
- Northern Powergrid
- Openreach
- Swyddfa'r Post
- Ring
- Y Post Brenhinol
- Achub y Plant
- Cymdeithas Pêl-droed yr Alban
- Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- SelectaMark
- Sodexo (HMP Addiewell)
- Hufenfa De Arfon
- Thames Water
- Tideway
- Safonau Masnach (Dwyrain Canolbarth Lloegr, Caint a Medway, Manceinion Fawr)
- TSB
- Atal Dopio y DU
- William Hill
- Cymdeithas Fasnach Gwin a Gwirodydd

Credwn bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw, ble bynnag y maent yn gweithio, ar gyfer ein hunain a'r holl rai yr ydym yn ymboeni amdanynt.

Ond weithiau efallai y bydd pobl yn gofidio am drosedd, neu rywbeth sy'n anghywir, ac yn dymuno rhoi gwybodaeth. Dyma pam ei bod yn dda gwybod y gallant wastad ymddiried yn Crimestoppers.

Rydym yn elusen annibynnol sy'n rhoi'r grym i bobl godi eu llais ac atal troseddu, mewn ffordd hollol ddienw. Dros y ffôn ac ar-lein, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Dim cyswllt gyda'r heddlu. Dim datganiadau tyst. Dim llysoedd.

Bob blwyddyn, byddwn yn helpu i stopio miloedd o droseddau. Felly gadewch i ni wneud cymunedau yn fwy diogel gyda'n gilydd.

CrimeStoppers.

crimestoppers-uk.org